

Tasg 2

(Heriol, sbardun 1)

Dyma'r atebion i'r cwis.

1. Dyma'r gwledydd oedd yn cymryd rhan yn y Gemau Olympaidd y Gaeaf 1924 (1 pwynt am bob ateb cywir):
 - Awstria
 - Gwlad Belg
 - Canada
 - Gweriniaeth Tsiec / Slofacia
 - Y Ffindir
 - Ffrainc
 - Prydain ac Iwerddon
 - Hwngari
 - Yr Eidal
 - Latvia
 - Norwy
 - Gwlad Pwyl
 - Sweden
 - Y Swistir
 - Unol Daleithiau America
 - Iwgoslafia (Roedd Serbia, Croatia, Macedonia, Slofenia, Bosnia a Herzegovina, Montenegro a Kosovo yn rhan o Iwgoslafia y pryd hwnnw - felly gallwch chi gael **un** pwynt os ydych chi wedi enwi un neu fwy o'r gwledydd yma.)
2. Seremoni Agoriadol Gemau Olympaidd y Gaeaf 1960.
 - Beth oedd i'w weld?
 - balwnau'n cael eu gollwng i'r awyr (1 pwynt)
 - tân gwyllt (1 pwynt)
 - 2,000 o golomennod gwyn yn cael eu rhyddhau i'r awyr (1 pwynt)
 - baneri'r gwledydd yn hedfan i mewn i'r seremoni ar barasiwtau (1 pwynt)
 - Beth oedd i'w glywed: bandiau a chorau (1 pwynt)
3. Gemau Paralympaidd y Gaeaf cyntaf: 1976 (1 pwynt)
4. Y ddau brif gategori yn y Gemau hynny oedd:
 - campau ar gyfer pobl â nam ar eu golwg (1 pwynt)
 - campau ar gyfer pobl oedd wedi colli aelod o'u corff (1 pwynt)
5. Sut mae'r swyddogion yn Sochi yn ceisio datrys unrhyw broblemau allai godi gyda'r tywydd?
 - Maen nhw wedi bod yn storio eira. (1 pwynt)
 - Mae peiriannau eira ar gael i greu eira os bydd angen. (1 pwynt)
 - Mae technoleg ar gael i gael gwared â'r cymylau. (1 pwynt)
6. Mae'r cystadlaethau sgïo'n digwydd:
 - Yn y mynyddoedd ger Sochi. (1 pwynt) / ym Mynyddoedd Krasnaya Polyana (2 bwynt) / yn y mynyddoedd sydd lai na 40 munud i ffwrdd o Sochi ar y trê'n. (1 pwynt)

7. Faint o gystadlaethau sydd eleni?
(98 1 pwynt)

8. Sut mae merched yn cael eu trin yn wahanol yng Ngemau Olympaidd y Gaeaf erbyn heddiw?
Mae mwy o gystadlaethau nag erioed o'r blaen ar gyfer merched. (1 pwynt)

9. Beth ddigwyddodd yn 1994?
Dyma pryd y dechreuodd yr arfer o gael bwlch o ddwy flynedd rhwng Gemau Olympaidd yr Haf a Gemau Olympaidd y Gaeaf. (1 pwynt)

10. Gan ddefnyddio gwybodaeth o'r darn yn unig, beth yw'r cysylltiad rhwng Gemau Olympaidd y Gaeaf â Groeg?
Dyma ble mae'r fflam Olympaidd yn cael ei chynnau bob tro. (1 pwynt)